OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 204 (Cy.34)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - *30 Ionawr 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *31 Ionawr 2012*
Yn dod i rym - - *28 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 58(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2012.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran yr ardaloedd hynny o Gymru y mae adran 57 (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd) o Fesur 2010 wedi ei chychwyn mewn perthynas â hwy (**2**).

Swyddogaethau cymorth i deuluoedd

2. Mae'r swyddogaethau a nodir yn yr Atodlen wedi eu rhagnodi fel swyddogaethau cymorth i deuluoedd at ddibenion Rhan 3 o Fesur 2010.

Dirymu

3. Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

(**1**) 2010 mccc 1. Mae adran 71 o Fesur 2010 yn diffinio ystyr "rhagnodi" a "rheoliadau" at ddibenion adran 58(2).
(**2**) Ar y dyddiad y caiff y Rheoliadau hyn eu dwyn i rym mae adran 57 o Fesur 2010 mewn grym mewn perthynas ag ardaloedd yr awdurdodau lleol a ganlyn: Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, Caerdydd a Bro Morgannwg.

(a) Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010(**3**); a

(b) Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2011(**4**).

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

30 Ionawr 2012

(**3**) O.S. 2010/1701 (Cy. 162).
(**4**) O.S. 2011/191 (Cy. 36).

YR ATODLEN Rheoliad 2

Tabl 1

Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant

Y Swyddogaeth	*Rhychwant*
a.2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (fel y bo'n gymwys drwy weithrediad a.28A o'r Ddeddf honno) (*Darparu Gwasanaethau Lles*) a.117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (*Ôl-ofal*) a.17 ac Atodlen 2, Rhan 1 o Ddeddf Plant 1989 (*Darparu gwasanaethau i blant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill*) a.192(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac Atodlen 15 iddi (*Awdurdodau Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol*)	I'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau (gan gynnwys cymorth, cwnsela neu gefnogaeth) i blant sydd mewn angen ("in need") at ddibenion adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac i'w teuluoedd, gan gynnwys cyflawni unrhyw asesiadau at y dibenion hynny.

Tabl 2

Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas ag oedolion

Y Swyddogaeth	*Rhychwant*
a.29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 a'r cyfarwyddiadau a wnaed odani (*Trefniadau lles*) a.2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (*Darparu Gwasanaethau Lles*) a.117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (*Ôl-ofal*) a.6 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (*Asesiadau: personau â chyfrifoldeb rhian*t) a.192(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac Atodlen 15 iddi (*Awdurdodau Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol*)	I'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau (gan gynnwys cymorth, cwnsela neu gefnogaeth) neu gyfleusterau i hybu lles personau dros 18 oed sy'n gymwys i gael gwasanaethau o dan yr adrannau hynny am eu bod yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau, yn ddioddefwyr trais neu gamdriniaeth domestig, yn rhai a chanddynt hanes ymddygiad treisiol neu ymddygiad o gam-drin neu am eu bod yn rhai a chanddynt anhwylder meddwl, ac mae hyn yn cynnwys asesu'r angen am y gwasanaethau neu'r cyfleusterau hynny.